

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Cyngor Conwy

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Cyngor Conwy

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Conwy ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r weledigaeth yn glir o ran blaenoriaethau'r Awdurdod yn ystod cyfnod y Cynllun, a chroesawn y ffaith fod y prif dargedau wedi'u cynnwys fan hyn.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae cwmp sylweddol iawn yn niferoedd a chanrannau'r plant sy'n symud ymlaen o gylchoedd meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg yn 2012/13, ac ni chynigir unrhyw esboniad yn y Cynllun drafft dros y cwmp hwn. Roedd ffigyrau 2010/11 a 2011/12 yn ddigon agos at ei gilydd, cyn gweld cwmp syfrdanol yn 2012/13 - a chynnydd cyfatebol yn y nifer sy'n mynd ymlaen i addysg cyfrwng Saesneg.

Mae'r diffyg esboniad yn fwlch amlwg yn y Cynllun, ac yn codi cwestiynau o bwys am y targedau sydd wedi'u gosod. Mae'r holl dargedau a osodwyd, hyd at 2017, yn sylweddol is na'r canrannau a lwyddwyd i'w cyrraedd (ac yn wir, y llwyddwyd i ragori'n sylweddol arnynt) ym mlynnyddoedd 2010/11 a 2011/12. Heb esboniad clir a chredadwy dros y cwmp, mae'r targedau hyn yn ymddangos yn annerbyniol o isel.

Mae cwestiwn tebyg yn codi mewn perthynas â'r canrannau sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae targed a osodwyd ar gyfer 2015, sef 24% yn is na'r canran yn 2010/11 a dim ond mymryn yn uwch na'r ffigyrau ar gyfer 2011/12 a 2012/13. Gofynnwn hefyd pam mai targed ar gyfer 2015 yn unig sydd yma yn hytrach nag ar gyfer bob blwyddyn tan ddiwedd y Cynllun yn 2017?

Mabwysiadu dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni.

O ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y lleoliadau Blynnyddoedd Cynnar, mi fyddem yn hoffi gweld ffigyrau ar gyfer y niferoedd/canrannau ar hyn o bryd, a thargedau penodol ar gyfer y cynnydd dros y blynnyddoedd hyd at 2017.

Dywedir nad oes data ar gyfer y niferoedd sy'n trosglwyddo o feithrinfeydd gofal plant preifat i ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Oni fyddai'r Cynllun hwn yn rhoi cyfle da i ymrwymo i gasglu'r data hwnnw?

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae'r ffigyrau ar gyfer dilyniant ieithyddol yn siomedig, ac yn y cyd-destun hwn, teimlwn ar y cyfan nad yw'r targedau a osodir yn y Cynllun hwn yn ddigon uchelgeisiol.

Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)

Gosodir targed ar gyfer cynyddu'r niferoedd ym Mlwyddyn 6 erbyn 2015 – ond beth am 2016 a 2017?

Mae'r targed ar gyfer cynyddu'r niferoedd ym Mlwyddyn 9 yn annerbyniol o isel. Mae'r cynnydd o 17.72% (2012/13) i 18% (2015) yn gynnydd o 3 disgybl yn unig (o 204 i 207). Nid yw hyn yn arwydd o hyder yn y Cynlluniau Trochi. A pham na osodir targedau ar gyfer 2016 a 2017?

Hyrwyddo trosglwyddo mwy effeithiol rhwng y cyfnod cyn ysgol i ddarpariaeth statudol, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae'r un broblem fan hyn, mewn perthynas â lleoliadau cyn ysgol, ag yn Neilliant 1 uchod o ran diffyg esboniad am y cwmp brawychus yn y niferoedd a chanrannau, a'r targedau annerbyniol o isel.

O ran Ysgolion Dynodedig Cymraeg + Categori A, nodir bod 'y chydig o gynnydd yn y *canran* o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg Iaith Gyntaf'; fodd bynnag, y gwirionedd yw bod y *niferoedd* yn gostwng. Mae'r nod a osodir i gynyddu i 23% erbyn 2017 yn darged llawer rhy isel – h.y. cynnydd o ryw 0.4%, neu tua 4 disgybl, y flwyddyn. Yn ogystal, mae 23% yn is na chanran 2008/09 – felly ni fydd y niferoedd/canrannau hyd yn oed yn cael eu hadfer yn ystod oes y Cynllun hwn, heb sôn am eu cynyddu.

Hyd y gwelwn ni, ni osodir targed o unrhyw fath ar gyfer Blwyddyn 9; mae hyn yn hanfodol ar gyfer y Cynllun.

Parthed Cynllun Trochi Ysgol y Creuddyn, mi fyddai'n ddefnyddiol cael gweld niferoedd yn ogystal â chanrannau yn y tabl hwn. Gan fod esboniad yn cael ei gynnig o'r rhesymau dros ragdybio gostyngiad yn nifer y disgyblion fydd yn dilyn y cwrs trochi, mi fyddai'n ddefnyddiol cael amcangyfrif o faint o blant fydd yn dilyn y cyrsiau Cymraeg TGAU Iaith Gyntaf yn Ysgolion Eirias ac Aberconwy - a sut yn union y mae hyn yn effeithio ar y niferoedd ar y cwrs trochi. Nid yw'r berthynas rhwng y naill a'r llall yn gwbl glir ar hyn o bryd.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Anodd iawn yw dehongli ystyr y ffigyrau yn y tablau yn yr adran hon. Er enghraifft, beth yw arwyddocâd y 100% yn y colofnau 'Nifer y cyrsiau' – cant y cant o beth? Nid oes modd gweld yn glir y canran o ddisgyblion yn yr ysgolion unigol sy'n dilyn y cyrsiau (a faint o gyrsiau) drwy gyfrwng y Gymraeg, a/neu yn ddwyieithog – heb sôn am y canran o'r garfan gyfan ar draws yr Awdurdod. Mae angen data llawer cliriach a manylach fel sail ar gyfer dadansoddiad a thargedau'r adran hon.

Pam nad oes sôn unrhyw dargedau dan y pennawd hwn?

Cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion

Unwaith eto, rydym yn ei chael hi'n anodd dehongli'r data yn yr adran hon. Pan nodir y canrannau ar gyfer y myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau diwedd Blwyddyn 12 drwy gyfrwng y Gymraeg – canran o beth a nodir? Cymerwn nad canran o'r garfan gyfan ar draws yr Awdurdod yw hwn; yn hytrach, ai canran o'r disgyblion yn Ysgolion Creuddyn a Dyffryn Conwy sydd dan sylw? Mae angen i hyn fod yn gwbl glir – ac yn sicr mi fyddai'n ddefnyddiol cael y canrannau o blith y garfan ledled yr Awdurdod (yn unol â deilliannau a dangosyddion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg).

Byddai'n dda cael rhagor o fanylder ynghylch sut yn union y bwriedir cynyddu'r ganran sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog - sonnir am 'weithio gyda phartneriaid allweddol' ond hoffem weld camau gweithredu cliriach, mwy penodol.

Cynhwysir targedau ar gyfer cynyddu nifer y cyrsiau, ac ar gyfer cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n parhau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ond mae diffyg targedau penodol ar gyfer cynyddu canran y myfyrwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf

Mae'n amlwg bod cwmp sylweddol yng nghanlyniadau TGAU 2013. Ni chynigir esboniad o'r cwmp hwn, ac felly mae darn o'r stori ar goll o ran sut i fynd ati i godi'r perfformiad.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith

Mae cynnydd cyson a sylweddol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf o ran y niferoedd sy'n ennill Lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, ac mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, ni ddeallwn pam fod y targedau ar gyfer 2013/14 a 2014/15 yn is na'r canrannau yn 2013. Beth yw'r rhagdybiaethau sydd y tu ôl i'r gostyngiad hwn?

O ran cyrsiau TGAU Cymraeg Ail Iaith, mae'r ffigyrau ar gyfer y canrannau a gafodd A*-C yn amrywiol iawn. Mi fyddai'n ddefnyddiol cael esboniad o'r amrywiaeth hyn. Nodir targed o godi'r canran cyfartalog i 80% - ond ni nodir erbyn pryd.

Cymeradwywn yn fawr y targed o 100% ar gyfer dysgwyr Emrys ap Iwan sy'n dilyn y cwrs llawn.

Cynyddu cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith

Nid yw UCAC o'r farn bod y tablau hyn yn darparu'r wybodaeth a ofynnir amdani yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Nid oes modd gweld faint (o ran niferoedd, na chanran o'r cofrestriadau TGAU Cymraeg/Cymraeg Ail Iaith) sy'n mynd ymlaen i astudio Safon Uwch Cymraeg/Cymraeg Ail Iaith. Mae'r ffigyrau hyn yn angenrheidiol os am osod targedau ystyrlon – ac nid oes targedau i'w canfod yma. Mae hyn yn ddiffyg amlwg ac annerbyniol yn y Cynllun.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim sylw.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Dim sylw.

Adran 3: Sylwebaeth a nodiadau pellach

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon.

Atodiad 3

Ni welwn ystadegau ar gyfer yr atodiad hwn.

Atodiad 5

Nid ydym yn sicr bod yr holl wybodaeth a ofynnir amdani yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn y Cynllun. Yn sicr nid oes niferoedd ar gyfer TGAU Ail Iaith (dim ond canrannau), ac nid oes ffigyrau ar gyfer y sawl na chofrestrwyd ar gyfer arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) twitter.com/AthrawonCymru